OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1077

# Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

## RHAN 3

Dyletswydd i fabwysiadu

**Hysbysu am benderfyniad i fabwysiadu**

**6.** Rhaid i hysbysiad o dan baragraff 23(4)(b) neu (5) o Atodlen 3 bennu—

(a) y rhesymau dros y penderfyniad, a

(b) dyddiad y penderfyniad.

**Rhyddhau bond methu â chyflawni pan fo'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys**

**7.**—(1) Ac eithrio pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i'r corff cymeradwyo ryddhau bond methu â chyflawni o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o dan baragraff 23(4)(b) neu (5) o Atodlen 3.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys os gwnaeth y corff cymeradwyo—

(a) dyroddi tystysgrif o dan baragraff 12(2) o Atodlen 3, a

(b) gwneud gwaith i sicrhau bod y system ddraenio wedi ei chwblhau yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gydymffurfio â'r safonau cenedlaethol o ran ei gweithredoedd.

(3) Rhaid i'r corff cymeradwyo, o fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl cwblhau'r gwaith—

(a) anfon cyfrif llawn at y datblygwr o unrhyw symiau a gafwyd o dan y bond sydd wedi eu defnyddio i ddiwallu cost gwneud y gwaith,

(b) talu unrhyw swm dros ben i'r datblygwr, ac

(c) rhyddhau'r bond methu â chyflawni.

**Cofrestru a dynodi pan fo'r ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys**

**8.** O fewn 4 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl rhoi hysbysiad o dan baragraff 23(4)(b) neu (5) o Atodlen 3, rhaid i gorff cymeradwyo—

(a) trefnu—

(i) i'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol(**1**) gynnwys y system ddraenio yn y gofrestr a gedwir o dan adran 21 o'r Ddeddf,

(**1**) Diffinnir "lead local flood authority" yn adran 6(9) o'r Ddeddf.

(ii) i awdurdod dynodi(**2**) ddynodi dros dro o dan baragraff 7 o Atodlen 1 i'r Ddeddf unrhyw ran o'r system ddraenio (pa un a yw honno'n rhan a fabwysiadwyd ai peidio) sy'n gymwys i'w dynodi ac nad yw'r corff cymeradwyo yn berchen arni, a

(b) yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 63 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**3**), rhoi hysbysiad o fwriad i ddynodi, o dan yr adran honno, unrhyw ran o'r system ddraenio a fabwysiadwyd sy'n stryd o fewn ystyr adran 48 o'r Ddeddf honno.

(**2**) Diffinnir "designating authority" ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(**3**) 1991 p. 22. Mewnosodwyd adran 63(5) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.